TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

City & Guilds Diploma mewn Barbro Lefel 2

Yn gryno Os ydych eisiau gyrfa fel barbwr, nod y cwrs yma yw darparu dull cyflym i gael cymhwyster tystysgrif Lefel 1 a Lefel 2 dros flwyddyn. Byddwch yn datblygu sgiliau mewn torri gwallt dynion ac yn ennyn dealltwriaeth o dechnegau gwaith barbwr, gwasanaethau ac offer gwaith barbwr.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer.....rywun a chanddo brofiad yn torri gwallt dynion ...drinwyr gwallt profiadol sydd eisiau ennill cymwysterau i wella eu gyrfa ... rywun sydd eisiau newid gyrfa.

Cynnwys y cwrs

Cynhelir y cwrs am 15 awr yr wythnos. Mae'n ymdrin â thechnegau sylfaenol yn cynnwys:

Ymgynghori er mwyn adnabod anghenion cleientiaid
Datblygu technegau torri/clipio i gael yr olwg a ddymunir
Defnyddio cynnyrch ac offer
Iechyd a diogelwch yn y salon
Darparu gwasanaeth ôl-ofal addas Bydd angen i chi fod yn hunanysgogol, yn weithiwr diwyd, a bod gennych barch at eraill ac yn frwdfrydig ynghylch y pwnc. Pan fyddwch wedi cwblhau'r

cwrs, byddwch yn gallu symud ymlaen i NVQ Lefel 2 mewn Trin Gwallt os dymunwch.

Gofynion Mynediad Bydd angen i chi gael o leiaf dyfarniad yn unrhyw ddisgyblaeth trin gwallt neu fod gennych brofiad o weithio mewn siop farbwr heb unrhyw gymwysterau ffurfiol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r offer priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Y gost am hyn yw tua £161-£326, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau chwyddiant.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Gellir cael manylion ar sut i archebu eich gwisg salon am ddim, a setiau ychwanegol, yn ogystal ag opsiynau talu'r cyflenwyr, oddi wrth eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Y pris ar gyfer 2024/2025 yw £45, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau chwyddiant.

Gall fod costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadolygu a gallent newid.